

Cytundeb benthycha cyfarpar codi sbwriel

Mae Cadwch Gymru'n Daclus a'ch awdurdod lleol yn ystyried iechyd a diogelwch o ddifrif ac mae angen ichi lenwi'r ffurflen hon a'i dychwelyd drwy e-bost i reolwr yr hyb **bob tro** y byddwch yn benthycha'r cyfarpar. Mae angen inni gasglu manylion cyswllt er mwyn monitro benthyciadau'r cyfarpar a mesur effeithiolrwydd y cynllun.

Bydd y manylion cyswllt a roddir yn cael eu cadw'n ddiogel a dim ond rhwng Rheolwr yr Hyb a Cadwch Gymru'n Daclus y byddant yn cael eu rhannu. Efallai y byddant hefyd yn cael eu defnyddio at ddibenion gweinyddol yr yswiriant a ddarperir, ac os oes angen, byddant yn cael eu rhannu â'r brocer a'r cwmni yswiriant. Caiff y ffurflen ei dileu ar ddiwedd y digwyddiad codi sbwriel, pan fydd y cyfarpar wedi ei ddychwelyd i'r hyb yn ddiogel a phan fydd ystadegau'r digwyddiad wedi eu darparu. Nid yw Cadwch Gymru'n Daclus yn rhannu data â neb arall.

Rwyf wedi darllen y Canllawiau a'r wybodaeth Iechyd a Diogelwch a ddarparwyd gan Cadwch Gymru'n Daclus ac yn cytuno i'w dilyn ac i gynnal sesiwn frifio cyn y digwyddiad¹ gyda phawb sy'n bresennol. Rwyf yn deall y bydd unrhyw wriadau oddi wrth hyn yn golygu na fydd aelodau o'r digwyddiad codi sbwriel wedi eu cynnwys yn yr yswiriant.

Rwyf yn cytuno i lenwi'r ffurflen asesiad risg a ddarperir gan Cadwch Gymru'n Daclus. Rwyf yn deall bod hyn yn ofynnol er mwyn sicrhau bod y digwyddiad wedi'i gynnwys o dan yr yswiriant.

Rwyf yn cytuno i ddarparu gwybodaeth am y digwyddiad i Reolwr yr Hyb pan fyddaf yn dychwelyd y cyfarpar.

Rwyf yn cytuno i drefnu casgliad gwastraff â'r awdurdod lleol (os oes angen)

Byddaf yn sicrhau fy mod wedi cael caniatâd y tîrfeddiannwr ac wedi trefnu casgliad gwastraff ag ef
D.S. ar dir cyhoeddus, e.e. parciau, traethau ymdrochi a phriffyrdd mabwysiedig, bydd angen trefnu'r casgliad gwastraff â'r awdurdod lleol

Meddylwch yn ofalus am leoliad eich digwyddiad codi sbwriel. Sicrhewch fod pawb sy'n cymryd rhan yn cael eu brifio ac yn deall yr angen i weithredu mewn modd diogel. Byddwch yn arbennig o ofalus ger ffyrdd a chadwch lygad barcud ar unrhyw blant sy'n cymryd rhan. Mae'n bwysig gwisgo esgidiau cadarn a **pheidio byth** â defnyddio eich dwylo noeth i godi unrhyw wastraff – defnyddiwch y codwyr sbwriel a ddarperir yn unig. Defnyddiwch y canllawiau gan eu bod yn cynnwys llawer o gyngor da i'ch helpu i gynllunio'ch digwyddiad codi sbwriel yn ddiogel.

Manylion cyswllt

Enw:
Cyfeiriad:
Rhif cyswllt:

¹ Darperir gwybodaeth am y digwyddiad yn y bag cyfarpar

Cyfeiriad e-bost:

Enw'r grŵp / ysgol / busnes neu sefydliad:

Manylion y digwyddiad

Dyddiad y digwyddiad codi sbwriel;	
Lleoliad y digwyddiad codi sbwriel;	
Amcangyfrif o nifer y cyfranogwyr;	
Man gollwng bagiau sbwriel;	
*Y dyddiad a ffefrir ar gyfer casglu'r cyfarpar:	*Y dyddiad a ffefrir ar gyfer dychwelyd y cyfarpar:

**I'w drafod a'i gytuno gyda rheolwr yr hyb, yn ddibynnol ar nifer y cyfarpar sydd ar gael*

Manylion benthycy cyfarpar

Eitem	Y nifer sydd eu hangen
Codwyr sbwriel	
Cylchoedd	
Festiau gwelededd uchel	

Cyswllt eich awdurdod lleol

Enw	Brian Mogford / Michael Roberts
Rhif ffôn	BM 07887 932066 / MR 01267 225806
E-bost	prideinyourpatch@carmarthenshire.gov.uk

Benthycy a dychwelyd cyfarpar

Cyfrifoldeb y benthyciwr yw dychwelyd yr eitemau a fenthycwyd erbyn y dyddiad y cytunwyd arno, yn eu cyflwr gwreiddiol. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid talu am unrhyw doriadau/colledion. Disgwylir i fenthycwyr roi gwybod i'r sawl sy'n rhoi benthycy o unrhyw ladrad, colled neu ddifrod cyn gynted â phosibl i leihau'r risg o darfu ar fenthycwyr eraill.

Caiff y cyfarpar ei fenthycy am ddim a'i ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae angen inni ddangos bod yr hybiau yn gweithio'n effeithiol, yn gwneud gwahaniaeth a bod gwerth eu hariannu, felly bydd angen rhywfaint o wybodaeth arnom am eich digwyddiad.

Mae'n rhaid inni roi gwybod i'r awdurdod lleol ble y gadawyd y bagiau hefyd. **Eich cyfrifoldeb chi** yw cysylltu â'r awdurdod lleol i drefnu ble i adael y bagiau llawn fel y gall eu staff eu casglu (os oes angen).

Hyrwyddo eich digwyddiad

Er mwyn ein helpu i ddangos effaith yr hybiau, byddem yn ddiolchgar pe gallech bostio lluniau o'ch digwyddiad ar y cyfryngau cymdeithasol. Sicrhewch fod pawb wedi rhoi caniatâd yn gyntaf (mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer pobl o dan 18 mlwydd oed).

Tagiwch **@Keep_Wales_Tidy** yn eich postiau

Manylion y digwyddiad (i'w cwblhau ar ôl dychwelyd y cyfarpar)

Mae angen rhoi manylion y digwyddiad, gan gynnwys nifer y cyfranogwyr, faint o sbwriel a gasglwyd ac ati, i reolwr yr hyb. Gofynnir i chi ddarparu'r wybodaeth ganlynol pan fyddwch yn dychwelyd y cyfarpar;

Nifer y cyfranogwyr		Nifer y bagiau gwastraff cyffredinol a gasglwyd	
Nifer yr oriau a dreuliwyd		Nifer y bagiau ailgylchu a gasglwyd	
Lleoliad y digwyddiad		Yr eitem fwyaf anarferol y daethpwyd o hyd iddi	

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu dyfyniad ar ôl y digwyddiad hefyd y gallwn ei ddefnyddio yn ein cyhoeddusrwydd (nodwch isod)

Enw:

Dyfyniad: